



Copi o Weithdrefnau a Rheoliadau

Addysg Uwch Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer Byrddau Arholi

**Ar gyfer rhaglenni Pearson, rhaglenni a
ddilyswyd gan Brifysgol Bangor**

Trosolwg

Mae'r canllaw hwn yn ymwneud yn unig â rhaglenni a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor neu a gymeradwywyd gan Pearsons neu'r SQA, ac a ddarperir yng Ngrŵp Llandrillo Menai. Mae'r canllaw hwn yn egluro rheoliadau'r byrddau arholi mewnol ac allanol sy'n pennu dilyniant myfyrwyr a dosbarthiad cymwysterau Addysg Uwch.

Mae'r rheoliadau sy'n ymwneud â chyflwyno dyfarniadau yn berthnasol i fyfyrwyr a gofrestrwyd o Fedi 2015 ymlaen ac sy'n astudio un o'r rhaglenni canlynol a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor:

Rhaglenni a Ddilyswyd gan Brifysgol Bangor	
BA (Anrh) / Gradd Sylfaen (FdA)	Rheoli a Busnes (yn cynnwys Llwybrau Dysgu)
Gradd Sylfaen (FdA) / BA (Anrh)	Celfyddydau Coginio
BA (Anrh)	Rheoli ym maes Lletygarwch
BA (Anrh)	Rheoli ym maes Teithio a Thwristiaeth
Gradd Sylfaen (FdSc) / BA (Anrh) Atodol	Hyfforddi ym Maes Chwaraeon Gwyddor Chwaraeon (Hamdden Awyr Agored)
Gradd Sylfaen (FdA) / BA (Anrh) Atodol	Astudiaethau Byddardod
Gradd Sylfaen (FdA) / BA (Anrh) Atodol	Astudiaethau Plentyndod a Chymorth Dysgu
Gradd Sylfaen (FdA) / BA (Anrh) Atodol	Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Rheoli ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion)
Tystysgrif Addysg Uwch	Arferion Gofal Iechyd
Gradd Sylfaen (FdA)	Technolegau Cynorthwyol: Hyrwyddo Annibyniaeth
Gradd Sylfaen (FdA)	Ffotograffiaeth
Tystysgrif Addysg Uwch / Graddau Sylfaen (FdSc)	Adeiladu
Tystysgrif Addysg Uwch / Graddau Sylfaen (FdEng)/ Gradd Anrhydedd (BEng) Atodol	Peirianeg Sifil
BSc (Anrh) Atodol	Rheoli ym maes Adeiladu Masnachol
Gradd Sylfaen (FdSc)	Cyfrifiadura Datblygu Meddalwedd/Rhwydweithio
Gradd Sylfaen (FdSc)	Animeiddio 3D a Datblygu Gemau
Gradd Sylfaen (FdA)	Cyfrngau Darlledu
BA (Anrh)	Cyfrngau Creadigol
Gradd Sylfaen (FdA)	Rheoli Llyfrgelloedd a Gwybodaeth
BA (Anrh)	Celfyddyd Gain
Gradd Sylfaen (FdA)	Celf a Dylunio
TAR/Addysg Ôl-Orfodol	Hyfforddiant Athrawon
MA	Celfyddyd Gain
Tystysgrif Addysg Uwch	Cwrsela

Rhaglenni a ymeradwywyd gan Pearson

HNC/D	Peirianeg (Campws Llandrillo-yn-Rhos a Llangefni)
HNC	Celfyddydau Creadigol (Actio)

1. Aelodaeth y Byrddau Arholi

Mae'r Bwrdd Arholi'n gyfrifol am y canlynol:

- sicrhau bod gweithdrefnau/penderfyniadau'n gyson â pholisïau, gweithdrefnau, rheolau a rheoliadau'r corff dyfarnu.
- sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i amgylchiadau lliniarol myfyrwyr.
- sicrhau bod canlyniadau achosion o ymarfer annheg yn cael eu cofnodi ac ar gael i'r Byrddau.
- penderfynu a all marc aflwyddiannus mewn modiwl gael ei gydoddef yn y Bwrdd Modiwlau neu ei ddigolledu yn y Bwrdd Dyfarnu.
- penderfynu a yw myfyrwyr yn gymwys i'w hailasesu os yw modiwl wedi cael ei fethu.
- cadarnhau marciau'r modiwlau a'r marciau cyffredinol ar gyfer myfyrwyr er mwyn iddynt un ai allu symud ymlaen i'r lefel nesaf neu gael eu dyfarnu.
- cadarnhau dosbarthiad y dyfarniadau.

Caiff canlyniadau manwl eu cofnodi yng Nghofnodion y Byrddau Arholi fydd ar gael i'r holl aelodau yn y Byrddau Mewnol ac Allanol.

2. Strwythur y Bwrdd Arholi

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod ar amseroedd penodol yn ystod y flwyddyn academiaidd i adolygu graddau modiwlau a phroffiliau academiaidd y myfyrwyr. Cynhelir byrddau mewnol i helpu i baratoi at y Bwrdd Dyfarnu Allanol. Ceir dau gam i'r byrddau mewnol sy'n cynnwys y Bwrdd Modiwlau ac yna'r Bwrdd Dyfarnu Mewnol. Y Bwrdd Dyfarnu Allanol fydd yn cyflwyno'r graddau'n ffurfiol; symud y myfyrwyr ymlaen i gam nesaf eu hastudiaethau; gwneud penderfyniadau ynghylch ailsefyll arholiadau a myfyrwyr sy'n gadael.

Calendr y Byrddau Arholi:

Y Bwrdd	Pryd
Bwrdd Dilyniant Mewnol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser	Ionawr / Chwefror
Bwrdd Modiwlau	Mawrth
Bwrdd Modiwlau	Mehefin
Bwrdd Dyfarnu Mewnol	Mehefin
Bwrdd Dyfarnu Allanol	Mehefin *
Bwrdd Ailsefyll	Medi

* Efallai y bydd rhai rhaglenni'n dal eu EAB ar wahanol ddyddiadau oherwydd strwythur eu cyflwyno.

Y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd sy'n gyfrifol am drefnu pob Bwrdd Rheoli. Gall adrannau wneud cais am Fyrddau Mewnol ychwanegol os oes angen.

3. Aelodaeth y Bwrdd Arholi

- Y Pennaeth Cynorthwyol/neu enwebai (sy'n gweithredu fel Cadeirydd)
- Arweinwyr Rhaglen yr holl raglenni a gyflwynir i'r Bwrdd
- Y Tiwtoriaid sy'n ymwneud â darparu ac asesu modiwlau'r dyfarniad
- Aelod o'r Swyddfa Ryngwladol os bydd rhaglenni sy'n cynnwys myfyrwyr rhyngwladol yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd
- Yr Arholwr Allanol
- Y Safonwr Allanol
- Rheolwyr Maes Rhaglen yr holl raglenni a gyflwynir i'r Bwrdd

Aelodau Ymgynghorol Cyfetholedig

- Swyddog Cofrestrfa Prifysgol Bangor
- Rheolwr Datblygu Addysg Uwch Grŵp Llandrillo Menai
- Rheolwr Sicrhau Ansawdd Grŵp Llandrillo Menai
- Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd Grŵp Llandrillo Menai
- Cynrychiolydd o'r Gofrestrfa i oruchwylio'r broses o baratoi trawsgrifiadau myfyrwyr
- Cofnodwr

Mae aelodaeth y Byrddau Arholi Mewnol (BAM) yn cynnwys pob un o'r uchod ac eithrio:

- Swyddog Cofrestrfa Prifysgol Bangor
- Yr Arholwr Allanol
- Y Safonwr Allanol

Noder: Gwahoddir Safonwyr Allanol i fynychu'r Bwrdd Mewnol ac mae rhai yn dewis gwneud hynny.

Cworwm

Mae'n ofynnol cael cworwm o 25% o'r aelodau cymwys. Fel arall mae gan y Bwrdd Allanol yr hawl i ddatgan bod y Bwrdd Arholi yn ddi-rym. Rhaid i bob aelod sy'n bresennol yn y Bwrdd lofnodi Rhestr Bresennoldeb y Bwrdd Arholi. Cyfrifoldeb rheolwyr yw sicrhau bod staff rhan-amser yn gwybod ei bod yn ofynnol iddynt dan eu cytundeb i fod yn bresennol mewn Byrddau Arholi.

4. Y Bwrdd Modiwlau

Mae'r Bwrdd Modiwlau'n sicrhau bod myfyrwyr yn cael gradd fodiwl derfynol, yn ystyried marciau modiwlau unigol ar draws pob grŵp o fyfyrwyr ac yn sicrhau bod safoni effeithiol wedi digwydd. Bydd y Bwrdd Modiwlau'n edrych ar batrymau ym mhroffiliau'r marciau ar draws modiwlau, e.e. fe allant nodi bod gan fodiwl gyfartaledd uchel neu isel iawn (marc cymedrig) neu wyriad safonau, neu fod nifer sylweddol o fyfyrwyr wedi methu modiwl.

Dim ond i raglenni a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor y mae gweddill adran 4 yn berthnasol. Rhaid i bob rhaglen arall ddilyn canllawiau'r Brifysgol neu'r Corff Dyfarnu priodol.

Bydd marciau'n cael eu llwytho i fyny ar y Rheolwr Dyfarniadau drwy gydol y flwyddyn academiaidd, yn unol â'r amserlen asesu. Bydd graddau asesu terfynol yn cael eu llwytho i fyny ddim hwyrach nag wythnos cyn Bwrdd Modiwlau Mehefin (neu fwrdd cyfatebol). Mae tiwtoriaid yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl raddau asesu a gaiff eu llwytho i fyny ar y Rheolwr Dyfarniadau yn gywir.

Rhaid ymdrin ag unrhyw farciau fel rhai dros dro hyd nes y byddant wedi cael eu cadarnhau gan y Bwrdd Arholi Allanol. Rhaid sicrhau bod myfyrwyr yn deall hyn wrth roi adborth iddynt.

Bydd cofnod ar y Rheolwr Dyfarniadau yn nodi pan fo Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol gan fyfyrwr wedi cael ei gymeradwyo. Bydd y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd yn nodi pan fo gan fyfyrwr Amgylchiadau Lliniarol wedi'u cydnabod neu achos o Arfer Annheg wedi'i gadarnhau.

Cydoddef: Pan fydd myfyrwr yn ennill marc o 40% neu uwch ar gyfer modiwl (50% lefel 7), ond nid yw wedi ennill 40% yn un neu ragor o'r cydrannau, gall y marc cyffredinol gael ei dderbyn fel marc gydoddef (oni bai bod rhanddirymiaid arbennig yn berthnasol ar gyfer rhaglen h.y. lle mae pob asesiad yn graidd). Rhaid cofnodi'r marc am yr elfen hon o'r modiwl fel un sydd wedi cael ei gydoddef yng nghofnodion y Bwrdd Modiwlau.

5. Byrddau Dyfarnu (Mewnol ac Allanol)

Mae'r Bwrdd Dyfarnu Mewnol yn pennu a yw myfyrwyr wedi bodloni'r gofynion ar gyfer symud ymlaen i'r cam astudio nesaf, neu'n bodloni'r meini prawf ar gyfer ailsefyll asesiad. Ar gyfer myfyrwyr sy'n cwblhau mae'n pennu canlyniad y dyfarniad gan gynnwys ei ddsbarthiad (os yw'n briodol).

Rhoddir ystyriaeth i berfformiad pob myfyriwr gan edrych ar:

- ymarfer annheg
- amgylchiadau lliniarol (gan gynnwys unrhyw amgylchiadau lliniarol o flynyddoedd astudio blaenorol a sut mae hyn wedi effeithio ar berfformiad cyffredinol) a
- trosglwyddiadau credyd a gymeradwywyd

Bydd manylion materion o'r fath yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd gan y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd.

Gweithrediad y Bwrdd Dyfarnu

Rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod dyfarniadau a dilyniannau'n cael eu gwneud yn unol â rheolau a rheoliadau'r partner AU/corff dyfarnu.

Yn y Bwrdd Arholi Allanol bydd y canlynol ar gael:

- manylion cyflawniadau academiaidd myfyrwyr ar y Rheolwr Dyfarniadau AU
- copiâu o gofnodion y Bwrdd Modiwlau a'r Bwrdd Dyfarnu Mewnol
- crynodeb o gofnodion achosion Arfer Annheg, ynghyd â'u canlyniadau, a
- chrynodeb o gofnodion y Panel Amgylchiadau Lliniarol, ynghyd â'u canlyniadau (gan eithrio manylion penodol yr amgylchiadau).

Dylid cymryd Cofnodion manwl ym mhob Bwrdd er mwyn:

- cofnodi trafodaethau a phenderfyniadau perthnasol.
- cofnodi'r rhesymau dros unrhyw argymhellion/penderfyniadau arbennig ar gyfer myfyrwyr, e.e. trefniadau arholi arbennig, achosion meddygol, llên-ladrad.
- darparu enghreifftiau i gyfarfodydd pellach o'r Bwrdd Arholi, a thrwy hynny gynorthwyo'r Bwrdd i sicrhau cysondeb.
- derbyn a chofnodi penderfyniadau unrhyw is-grwpiau, e.e. Cofnodion y Bwrdd Modiwlau a'r Bwrdd Dyfarnu Mewnol.
- cofnodi sylwadau Arholwyr Allanol mewn Byrddau Arholi lle cytunir ar ddyfarniadau.

Bydd cofnodion y Bwrdd Dyfarnu Allanol yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Ansawdd a Safonau Academiaidd a'r partner AU perthnasol. Bydd y sawl sy'n derbyn y cofnodion hyn yn cael gwybod am unrhyw ymwrthodiadau sydd ynghlwm â chyfrinachedd cofnodion o'r fath.

Ar ôl i'r Bwrdd Dyfarnu Allanol gyfarfod, bydd y Bwrdd Arholi yn ysgrifennu at fyfyrwyr i gadarnhau'r canlyniad ac i roi gwybod pa gamau sydd angen iddynt eu cymryd. Bydd copi o drawsgrifiad y myfyrwyr ar gyfer y lefel berthnasol (neu flwyddyn) yn cael ei gynnwys yn y llythyr hwn. Ni ddylai Byrddau Dyfarnu addasu marciau a gyflawnwyd gan fyfyrwyr yn ystod blynyddoedd blaenorol ac sydd wedi cael eu cadarnhau gan Fwrdd Arholi Allanol os na, am resymau diffiniedig, bod myfyrwyr wedi cael eu hysbysu bod y canlyniadau a gyhoeddwyd yn flaenorol yn rhai dros dro.

Gwrthdaro Buddiannau

Rhaid i aelodau'r Bwrdd ddatgan wrth y Cadeirydd unrhyw ddiddordeb personol neu ymwneud neu berthynas â myfyriwr/myfyrwyr sy'n cael eu trafod. Rhaid i'r aelod staff adael y cyfarfod pan fydd canlyniadau'r myfyriwr yn cael

eu trafod (gan gynnwys amgylchiadau lle mae'r tiwtor hefyd yn fyfyrwr). Rhaid i'r manylion hyn gael eu cofnodi yn y Cofnodion.

Cyfrinachedd

Rhaid ymdrin â'r eitemau a drafodir yn y Bwrdd Arholi yn gwbl gyfrinachol a rhaid i'r holl ddogfennau a gyflwynir i'r Bwrdd gael eu gadael yn yr ystafell. Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau eu bod yn cael eu casglu a'u gwaredu. Rhaid ymdrin ag unrhyw farciau fel rhai dros dro hyd nes y byddant wedi cael eu cadarnhau gan y Bwrdd Arholi Allanol. Ni ddylai aelodau'r Bwrdd ddatgelu na thrafod gwybodaeth gyda dysgwyr nag aelodau eraill o staff.

6. Dilyniant

Dim ond i raglenni a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor mae'r adrannau a ganlyn yn berthnasol. Rhaid i bob rhaglen arall ddilyn rheoliadau eu Corff Dyfarnu.

Rheolau Dilyniant

Rhaid i fyfyrwyr lwyddo ym mhob lefel o raglen cyn symud ymlaen i'r lefel nesaf. Er enghraifft, rhaid pasio Lefel 4 (blwyddyn gyntaf cwrs FdA) cyn dechrau ar gwrs Lefel 5 (ail flwyddyn cwrs FdA).

I lwyddo ym mhob lefel rhaid i fyfyrwyr sicrhau:

- bod y marc cyfartalog cyffredinol o leiaf yn farc Llwyddo*
- marc Llwyddo* yn yr holl unedau craidd.
- marciau Llwyddo* yn y modiwlau sy'n werth o leiaf 80 credyd.
- Nad yw'r marciau yn unrhyw fodiwl (gan gynnwys modiwlau dewisedig) yn is na 30% ar Lefel 4-6.

* Y marc Llwyddo ar Lefel 4-6 yw **40%**

Gwybodaeth ychwanegol:

Nid oes gofyn i fyfyrwyr ôl-radd fodloni unrhyw feini prawf cyn dechrau eu Prosiect Ymchwil oni bai bod yna feini prawf wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer rhaglen wrth iddi gael ei dilysu.

Digolledu

Pan fo myfyrwr yn cwblhau un lefel ac yn symud ymlaen i'r lefel nesaf fe all gael ei ddigolledu os yw:

- wedi ennill cyfartaledd cyffredinol o 40%, ac 📄 o leiaf 40% am o leiaf **80** o gredydau, a
- rhwng 30% a 39% ar gyfer yr 40 credyd arall.

Noder: y marc a gyflawnwyd sy'n cael ei gofnodi ar gyfer gradd derfynol y modiwl.

Myfyrwyr sy'n methu ennill digon o gredydau i symud ymlaen

Ni chaniateir i fyfyrwyr ailgofrestru fel myfyrwyr llawn amser, ac ni chaniateir iddynt ddilyn modiwlau hyd nes y byddant wedi bodloni'r meini prawf i symud ymlaen i lefel nesaf eu rhaglen. Ni chaiff myfyrwyr gario modiwlau ymlaen.

Gall myfyrwyr gael caniatâd i ailsefyll a/neu ailgyflwyno gwaith cwrs os nad ydynt wedi bodloni:

- Y meini prawf i symud o un lefel i'r llall
- Y meini prawf i lwyddo yn y rhaglen gyfan

Os yw marc myfyrwr yn y categori methu, rhaid i'r Bwrdd Arholi ystyried pa un ai a yw am ganiatáu ailsefylla/neu ailgyflwyno gwaith cwrs neu ddyfarnu cymhwyster gadael (os oes un wedi'i diffinio ar gyfer y Rhaglen).

7. Asesu Atodol (Ailsefyll)

Bydd y Bwrdd Arholi yn penderfynu a yw myfyriwr i gael cyfle i ailsefyll unrhyw gydrannau perthnasol a fethwyd. Bydd y Bwrdd yn penderfynu pa gydrannau a ellir eu hailsefyll. Y Bwrdd Dyfarnu Allanol fydd yn rhoi'r hawl i gwblhau asesiad atodol fel arfer. Mae'n bosibl i Fwrdd Canol Blwyddyn gynnig cyfle i ailsefyll ynghynt i fyfyrwyr sydd wedi methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer llwyddo neu symud ymlaen, e.e. gall myfyriwr sydd wedi methu modiwl craidd yn semester 1 cael cynnig cyfle i ailsefyll gan Fwrdd Modiwlau Mawrth.

Gall y Bwrdd Dyfarnu Mewnol roi cyfle i fyfyrwyr sy'n methu gyda marc cyfartalog cyffredinol sy'n uwch na 25% ac sy'n llwyddo i gael o leiaf 50 o gredydau ailsefyll y cydrannau perthnasol a fethwyd erbyn y dyddiad cau fis Awst er mwyn symud ymlaen neu gael ardstiad ym mis Medi. Pan na fydd myfyrwyr yn bodloni'r meini prawf hyn, gall y Bwrdd gynnig cyfle iddynt ailsefyll y cydrannau perthnasol a fethwyd yn y flwyddyn academaidd ganlynol, un ai'n allanol neu'n rhan-amser. Gall myfyrwyr allanol gyflwyno asesiadau a sefyll arholiadau ond ni chânt fynychu modiwlau.

Fel arfer bydd dyddiadau cyflwyno gwaith ar gyfer ailsefyll yn allanol neu'n rhan-amser yn dilyn yr amserlen asesu'r flwyddyn academaidd newydd. Wrth bennu dyddiadau ailgyflwyno ar gyfer gwaith ailsefyll, rhaid i diwtoriaid ganiatáu digon o amser i'r myfyrwyr gwblhau'r asesiad a derbyn adborth cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd Arholi.

Fel arfer, dim ond mewn modiwlau sy'n ddigonol i sicrhau gradd Lwyddo y mae'n ofynnol i fyfyrwyr ailsefyll asesiadau. Ni ddylid caniatáu i fyfyrwyr ailsefyll arholiadau neu ailgyflwyno gwaith cwrs er mwyn gwella marc am fodiwl neu ddsbarth gradd. Yr eithriadau yw:

- Pan ganiateir ailsefyll neu ailgyflwyno er mwyn cyflawni'r marc llwyddo sy'n ofynnol gan gyrff proffesiynol
- Os bydd myfyriwr ar Lefel 4 rhaglen Sylfaen wedi bodloni'r meini prawf i symud ymlaen ond bod marciau'r modiwlau rhwng 30 a 39% ac mae'n dymuno ceisio codi'r marciau hyn i 40%
- Os bydd myfyriwr ar Lefel 5 rhaglen radd 3 blynedd wedi bodloni'r meini prawf i symud ymlaen ond bod marciau'r modiwlau rhwng 30 a 39% ac mae'n dymuno ceisio codi'r marciau hyn i 40%

Os nad yw myfyrwyr yn cyflwyno gwaith ail-sefyll yn brydlon, bydd y Bwrdd Arholwyr yn ystyried hyn fel ymgais sydd wedi methu. Pan gaiff myfyriwr gynnig ailsefyll gan Fwrdd Canol Blwyddyn (e.e. (Bwrdd Modiwlau Mawrth), ond mae'n dewis peidio â gwneud hynny ar y pryd, ni fydd hyn yn cael ei ystyried fel ymgais gyntaf i ailsefyll. Dim ond y myfyrwyr fydd yn cyflwyno gwaith ailsefyll a bennwyd gan Fwrdd Canol Blwyddyn fydd yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi cymryd eu hymgais ailsefyll gyntaf ac yn cael gradd ailsefyll.

Os bydd yn gymwys gall myfyrwyr ailsefyll arholiadau ac ailgyflwyno gwaith cwrs **ddwywaith**. Ni chaiff myfyrwyr ailsefyll asesiad fwy na dwywaith.

Pennu Asesiadau Atodol

Bydd y Bwrdd Arholi yn ysgrifennu at y myfyrwyr i egluro eu dewisiadau o ran ailsefyll. Anfonir y llythyr hwn trwy ebost a dosbarthiad a gofnodwyd gan gynorthwydd gweinyddol yr adran. Bydd y llythyr hwn yn cynnwys y dyddiad erbyn pryd y bydd angen i'r myfyrwyr gysylltu â'u tiwtor i roi gwybod beth yw eu bwriadau, a chopi o'u trawsgrifiad hyd yma.

Bydd tiwtor y modiwl yn ysgrifennu briff asesu neu bapur arholiad newydd ar gyfer unrhyw waith ailsefyll. Bydd y tiwtor yn trefnu dyddiad addas ar gyfer ailsefyll arholiadau gyda'r myfyriwr a'r adran arholiadau (ym mis Awst bydd hyn yn digwydd yn ystod yr wythnos ailsefyll arholiadau). Bydd y tiwtor yn rhoi unrhyw friffiau asesu sydd i'w hailsefyll i gynorthwydd gweinyddol yr adran i'w gynnwys gyda'r llythyr sydd i'w anfon at y myfyriwr.

Bydd y llythyr yn cynghori myfyrwyr i drafod eu dewisiadau o ran ariannu â staff y Gwasanaethau i Ddysgwyr.

Marcio Asesiadau Atodol

Ar ôl i fyfyriwr ailsefyll neu ailgyflwyno gwaith rhaid defnyddio'r marc uchaf (e.e. os bydd myfyrwyr wedi cael 35% mewn arholiad ailsefyll a 38% ar yr ymgais gyntaf, yna 38% ddylai gael ei ddefnyddio fel marc). Y marc uchaf y gellir

ei roi am asesiad atodol yw marc 'llwyddo' (40% ar lefel 4-6; 50% lefel 7).

O ganlyniad, bydd y modiwl lle bu angen asesiadau atodol yn cael ei gapio ar 40% (50% lefel 7). Nid yw hyn yn cynnwys modiwlau lle mae rhanddirymidiadau'n berthnasol a phob asesiad yn graidd, mewn achosion o'r fath dim ond y radd asesu fydd yn cael ei chapio.

Os oes gan fyfyrwr amgylchiadau lliniarol, gall gymryd asesiad atodol fel cynnig cyntaf gyda/neu heb gap os bydd y Panel Amgylchiadau Lliniarol yn gwneud amod o hyn.

Os bydd myfyrwr yn ailsefyll gwaith yn dilyn Panel Ymarfer Annheg, nid fydd y modiwl yn cael ei gapio'n awtomatig; bydd cosbau'n dibynnu ar y myfyrwr unigol. Bydd y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd yn egluro hyn i'r Bwrdd Arholi.

Myfyrwr sy'n methu ar ôl cymryd asesiad atodol

Myfyrwr a gafodd gynnig ailsefyll gan Fwrdd Canol Blwyddyn (e.e. Bwrdd Modiwlau Mawrth):

Caiff cynigion y myfyrwr sy'n dewis ailsefyll ar ganol y flwyddyn eu hadolygu gan y Bwrdd Arholi nesaf. Felly bydd cynigion ailsefyll Mawrth yn cael eu hadolygu gan Fwrdd Dyfarnu Mehefin. Pan fydd myfyrwr o'r fath yn methu eu hymgais gyntaf i ailsefyll, fe allant gael cynnig ymgais ailsefyll derfynol erbyn dyddiad a bennir gan y Bwrdd.

Myfyrwr a gafodd gynnig ailsefyll gan Fwrdd Arholi Mehefin:

Bydd Bwrdd Arholi Medi yn adolygu cynnydd yr holl fyfyrwr a gafodd gynnig ailsefyll gan Fwrdd Arholi Mehefin. Pan fydd myfyrwr wedi methu eu hymgais gyntaf i ailsefyll, gallant gyflwyno eu hunain unwaith yn rhagor, ar yr un amodau, yn y flwyddyn ganlynol un ai'n allanol neu'n rhan-amser.

Mewn achosion prin, pan na fydd ond angen ailsefyll ychydig iawn o waith i symud ymlaen, fel all y Bwrdd awdurdodi cyfle olaf i ailsefyll cyn mis Medi, er mwyn gallu sicrhau dilyniant yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol. Dim ond yn dilyn trafodaeth rhwng y tiwtor a'r myfyrwr y gellir cymeradwyo hyn, a bydd y Bwrdd yn sicrhau na fydd y myfyrwr yn cael ei roi o adan anfantais.

Myfyrwr sy'n ailsefyll ar sail allanol neu ran-amser:

Bydd cyfarfodydd canol blwyddyn y Bwrdd Arholi yn monitro cynnydd y myfyrwr sy'n ailsefyll ar sail allanol neu ranamser. Y Bwrdd Dyfarnu Allanol fydd yn adolygu canlyniad eu gwaith ailsefyll ac yn penderfynu a ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer derbyn dyfarniad neu symud ymlaen. Gall myfyrwr sy'n methu eu hymgais ailsefyll gyntaf gael cynnig un cyfle arall i lwyddo.

Bydd myfyrwr sy'n methu eu hail ymgais i ailsefyll yn gadael y rhaglen.

- *Gall myfyrwr allanol gyflwyno asesiadau a sefyll arholiadau ond ni chânt fynychu modiwlau. Ni ddylid gofyn i fyfyrwr allanol gwblhau gwaith cwrs sy'n gofyn am adnoddau arbenigol sydd ar gael yn unig i fyfyrwr cofrestredig. Efallai y bydd angen dulliau asesu eraill.*
- *Os nad yw'r dull asesu'r un fath â'r asesiad gwreiddiol, dylid egluro hyn ar ddechrau pob modiwl (er enghraifft, os oedd yr asesiad gwreiddiol yn seiliedig ar weithgaredd na ellir ei ailadrodd heb fynediad at adnoddau penodol).*
- *Ni fydd myfyrwr sy'n cwblhau rhaglen sy'n gysylltiedig â chymhwyster proffesiynol o angenrheidrwydd yn cael yr hawl i ailsefyll neu ailgyflwyno. .*
- *Gall yr hawl i ailsefyll neu ailgyflwyno gael ei roi os caiff hynny ei gymeradwyo wrth ddilysu rhaglenni (e.e. i fodloni gofynion cyrff proffesiynol)..*
- *Os nad yw'n bosibl i fyfyrwr ailsefyll arholiadau neu ailgyflwyno gwaith cwrs ar gyfer y modiwl gwreiddiol (e.e. os oedd y modiwl yn seiliedig ar brofiad gwaith na ellir ei ail-wneud), gellir rhoi cyfle i'r myfyrwr gwblhau modiwl arall. Os dilynir modiwl arall, ni ddylai marciau'r arholiadau a'r gwaith cwrs gael eu capio ac ni ddylai marc y modiwl gwreiddiol gael ei*

Mae pob asesiad atodol yn gorfod dilyn y terfynau amser ar gyfer y rhaglen mae'r myfyriwr yn ei dilyn.

Dyfarniad	Cyfnod Astudio (blynyddoedd)		Terfyn Amser (blynyddoedd)	
	Llawn amser	Rhan-amser	Llawn amser	Rhanamser
Tystysgrif AU	1	2	3	6
Diploma AU	2	4	4	8
Gradd Sylfaen	2	4	4	8
Gradd Baglor (Gyffredin)	3	6	5	10
Gradd Baglor (Anrhydedd)	3	6	5	10
Tystysgrif i Raddedigion	6 mis	1	6 mis	1
Diploma i Raddedigion	12 mis	2	12 mis	2
Tystysgrif i Raddedigion (TAR)	4 mis	1	4 mis	1
Diploma Ôl-radd	8 mis	2	8 mis	2
Gradd Meistr	1	2 *	1	3

Gellir hefyd cwblhau Gradd Meistr dros gyfnod o dair blynedd

Gall y Bwrdd Arholi argymhell estyniad i'r terfyn amser os ceir amgylchiadau lliniarol.

Gall y Bwrdd gymeradwyo estyniadau o hyd at 3 mis i fyfyrwyr sy'n dilyn cwrs Tystysgrif i Raddedigion, Diploma i Raddedigion, Diploma Ôl-radd a Gradd Meistr.

8. Rheoliadau a Chyfrifiadau ar gyfer Cyflwyno Dyfarniadau

Pan fydd gan fyfyrwyr drosglwyddiadau credyd wedi'u cymeradwyo, bydd y modiwlau hyn yn cael eu heithrio o gyfrifiadau terfynol y dyfarniad. Bydd y fformwla briodol yn berthnasol i'r modiwlau sy'n weddill.

Graddau Meistr a Graddau Meistr Ymchwil

Y marc canrannol cyfartalog a bwysolwyd yw'r maen prawf sylfaenol ar gyfer pennu dosbarthiad y dyfarniad hwn; mae'n gwbl seiliedig ar y cyfartaledd cyffredinol a bwysolwyd ar Lefel 7.

I fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad Gradd Meistr rhaid i fyfyrwyr fod wedi:

- Cyflawni marc cyfartalog cyffredinol o 50% o leiaf
- Llwyddo (gyda 50%) yn o leiaf **80** o gredydau'r modiwlau
- Llwyddo yn yr holl fodiwlau Craidd
- Cael dim un marc sy'n is na 40%
- Dilyn o leiaf 180 credyd
- bodloni unrhyw amodau eraill a ddiffiniwyd wrth ddilysu.

Gradd Anrhydedd 3 Blynedd:

Mae'r marc canrannol cyffredinol ar gyfer Gradd Anrhydedd yn cael ei gyfrifo drwy: **% Gyffredinol = $[(L5 + (L6 \times 2)) / 3]$**
 Felly mae cyfrifiad Gradd Anrhydedd yn cael ei phwysoli ar $\frac{1}{3}$ ar Lefel 5 a $\frac{2}{3}$ ar Lefel 6.

I fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad Gradd Anrhydedd rhaid i'r myfyrwyr fod wedi:

- Ilwyddo (gyda 40%) yn o leiaf **100** o'r credydau ar lefel 6
- Ilwyddo yn yr holl fodiwlau Craidd
- Cael dim un marc sy'n is na 30% mewn modiwl
- dilyn o leiaf 360 credyd
- dilyn o leiaf 120 credyd ar bob lefel ac
- bodloni unrhyw amodau eraill a ddiffiniwyd wrth ddilysu.

Gradd Anrhydedd Atodol:

Y marc canrannol cyfartalog a bwysolwyd yw'r maen prawf sylfaenol ar gyfer pennu dosbarthiad y dyfarniad hwn; mae'n gwbl seiliedig ar y cyfartaledd cyffredinol a bwysolwyd ar Lefel 6.

I fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad Gradd Anrhydedd rhaid i fyfyrwyr fod wedi:

- Ilwyddo (gyda 40%) yn o leiaf **100** o'r credydau ar lefel 6
- Ilwyddo yn yr holl fodiwlau Craidd
- Cael dim un marc sy'n is na 30% mewn modiwl
- dilyn o leiaf 360 credyd
- dilyn o leiaf 120 credyd ar bob lefel ac
- bodloni unrhyw amodau eraill a ddiffiniwyd wrth ddilysu.

Gradd Sylfaen a Diploma AU

Mae'r marc canrannol cyffredinol ar gyfer Gradd Sylfaen a Diploma AU yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn: **% Gyffredinol = $[L4 + (L5 \times 2)] / 3$**

I fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad Gradd Sylfaen neu Ddiploma AU rhaid i fyfyrwyr fod wedi:

- wedi Ilwyddo (gyda 40%) yn o leiaf **100** o'r credydau ar Lefel 5, ar gyfer Gradd Sylfaen.
- wedi Ilwyddo (gyda 40%) yn o leiaf **80** o'r credydau ar Lefel 5, ar gyfer **Diploma AU** (dim ond yn berthnasol i'r rhai ar gwrs Gradd Anrhydedd 3 Blynedd)
- Ilwyddo yn yr holl fodiwlau Craidd
- cael dim un marc sy'n is na 30% mewn modiwl
- dilyn lleiafswm o 240 o gredydau, gydag o leiaf 120 o'r rhain ar Lefel 5 🎓 bodloni unrhyw amodau eraill a ddiffiniwyd wrth ddilysu.

Tystysgrif AU a TBAR/TAR

Mae'r marc canrannol cyffredinol ar gyfer Tystysgrif AU a TBAR/TAR yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn: Tystysgrif AU: **% Gyffredinol = Lefel 4**

TBAR/TAR: **% Gyffredinol = (Blwyddyn 1= 50% + Blwyddyn 2=50%)**

I fod yn gymwys ar gyfer dyfarniad Tystysgrif AU neu TBAR/TAR, rhaid i fyfyrwyr fod wedi:

- Ilwyddo (gyda 40%) yn o leiaf 100 o'r credydau
- Ilwyddo yn yr holl fodiwlau craidd (ar gyfer rhaglenni a ddilyswyd o Fedi 2013)
- cael dim un marc sy'n is na 30% mewn modiwl
- dilyn o leiaf 120 o gredydau
- bodloni unrhyw amodau eraill a ddiffiniwyd wrth ddilysu.

Ffiniau Dosbarthiadau

Cymhwyster	Marc Canrannol Cyffredinol	Dosbarthiad Gradd
Gradd Meistr	70% a throsodd	Rhagoriaeth
	60% - 69%	Teilyngdod
	50% - 59%	Pas
	0% - 49%	Methu
Gradd Anrhydedd	70% a throsodd	Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf
	60% - 69%	Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Uwch
	50% - 59%	Gradd Anrhydedd Ail Ddosbarth Is
	40% - 49%	Gradd Anrhydedd Drydedd Dosbarth
	0% - 39%	Methu
Gradd Sylfaen / Diploma AU a Thystysgrif AU, TBAR/TAR	70% a throsodd	Rhagoriaeth
	60% - 69%	Teilyngdod
	40% - 59%	Pas
	0% - 39%	Methu

9. Achosion Ffiniol

Mae'r rheolau canlynol yn berthnasol ar gyfer pob rhaglen a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor:

Y marc canrannol cyfartalog a bwysolwyd yw'r maen prawf sylfaenol ar gyfer pennu dosbarthiad dyfarniad. Mae'n ofynnol bod dosbarthiad achosion ffiniol (lle mae'r radd o fewn **2** bwynt canran i'r marc ffiniol yn cael ei drafod yn llawn cyn cytuno ar ganlyniad i'w argymhell ar gyfer pob myfyriwr.

Rhaid i'r Bwrdd Dyfarnu ystyried pob achos ffiniol ynghyd ag unrhyw Amgylchiadau Lliniarol. Os nad oes rheswm ddiffiniedig, ni ddylai marciau am fodiwlau a'u cydrannau unigol gael eu newid er mwyn gallu ail-gyfrifo'r marc canrannol cyffredinol i ddosbarth uwch.

Fel arfer ni ddylai'r Bwrdd ystyried myfyriwr unigol ar gyfer dosbarthiad gradd uwch os yw'r marc canrannol cyfartalog a bwysolwyd ar ôl talgrynnu dros 2% yn is na ffin isaf dosbarthiad gradd Er enghraifft: Gallai 58% gael ei ystyried ar gyfer 2.1 yn ôl doethineb y Bwrdd Arholi, ond ni fyddai 57% yn cael ei ystyried ar gyfer 2.1.

Mae gan y Bwrdd Arholi'r hawl i addasu marc myfyriwr mewn un neu ragor o'r modiwlau sydd o dan ei awdurdodaeth. Fodd bynnag, ni ddylai marciau myfyriwr unigol gael eu haddasu'n unig er mwyn ennill dosbarthiad uwch neu is.

Rhaid **cofnodi'n llawn yn y Cofnodion** yr holl fanylion sy'n berthnasol i sut y cytunwyd ar ganlyniad achos ffiniol er mwyn sicrhau tryloywder a thegwch yn y broses o wneud penderfyniadau.

Ceir Gweithdrefnau Penodol ar gyfer y canlynol – Rhaid dyfarnu dosbarth uwch os bydd myfyriwr yn bodloni **un** o'r meini prawf canlynol (lle mae'r marciau'n cyfeirio at farciau wedi'u talgrynnu):

Ar gyfer gradd Meistr:

- Mae'r marc am y Prosiect Ymchwil yn y dosbarthiadau uwch.
- Mae marciau am o leiaf $\frac{2}{3}$ y credydau yn yr holl fodiwlau yn y dosbarthiadau uwch.

Gradd Anrhydedd 3 Blynedd:

- Mae'r perfformiad yn ystod blwyddyn olaf y cwrs yn gyson â'r dosbarth uwch. Dylid dyfarnu dosbarth uwch i fyfyrwr os yw ei farc cyfartalog ar draws modiwlau Lefel 6 yn y dosbarth uwch ac os yw'r marciau am o leiaf hanner y credydau ar Lefel 6 yn y dosbarth uwch.
- Os yw marciau'r myfyrwr am o leiaf $\frac{2}{3}$ y credydau ar draws Lefel 5 a 6 yn y dosbarth uwch. Dylid dyfarnu dosbarth uwch i fyfyrwr os yw wedi ennill marciau yn y dosbarth uwch am o leiaf 160 o gredydau (Gradd Anrhydedd).

Gradd Anrhydedd Atodol (Lefel 6 yn unig):

- Mae marciau am o leiaf $\frac{2}{3}$ y credydau ar Lefel 6 yn y dosbarth uwch.

Graddau Sylfaen a Diplomau AU

- Mae perfformiad y myfyrwr yn y flwyddyn olaf yn gyson â dosbarth uwch. Dylid dyfarnu dosbarth uwch i fyfyrwr os yw ei farc cyfartalog ar draws modiwlau Lefel 5 yn y dosbarth uwch; ac (ar gyfer myfyrwyr a gofrestrwyd AR ÔL Medi 2015) os yw'r marciau am o leiaf hanner y credydau ar Lefel 5 yn y dosbarth uwch.
- Os yw marciau'r myfyrwr am o leiaf $\frac{2}{3}$ y credydau ar draws Lefel 4 a 5 yn y dosbarth uwch. Dylid dyfarnu dosbarth uwch i fyfyrwr os yw wedi ennill marciau yn y dosbarth uwch am o leiaf 160 o gredydau ar draws Lefel 4 a 5.

Tystysgrif AU a TBAR/TAR

- Mae marciau am o leiaf $\frac{2}{3}$ y credydau yn y dosbarth uwch.

Noder: Gall y Bwrdd Arholi hefyd ddefnyddio manylion eraill i gadarnhau'r dylai myfyrwr gael ei godi i ddosbarth uwch, yn cynnwys - ymadawiad cadarnhaol, a drosglwyddwyd mewn credydau a enillwyd mewn astudiaethau blaenorol yng NgrŴp Llandrillo Menai, amgylchiadau lliniarol, perfformiad uchel mewn Traethawd Estynedig neu Brosiectau Ymchwil cyffelyb.

10. Pwyntiau Gadael ac Atal

Gellir dewis cymhwyster gadael os yw'r myfyrwr eisoes wedi cael dau gyfle i ailsefyll **neu** os nad yw'r myfyrwr, ym marn y Bwrdd Arholi, wedi dangos ymrwymiad i'r rhaglen drwy ei bresenoldeb a/neu drwy gyflwyno gwaith i'w asesu ar amser, ac nad oes unrhyw amgylchiadau lliniarol nad yw eisoes wedi cael ei ystyried. Bydd y Bwrdd Dyfarnu'n cyfrifo dosbarthiad y dyfarniad gadael, lle y bo'n briodol. Pan fydd myfyrwr yn dewis gadael eu rhaglen astudio'n gynnar, bydd Arweinydd y Rhaglen yn hysbysu'r Bwrdd.

Dyfarniad	Pwyntiau Gadael Posibl
Diploma AU a Gradd Sylfaen	Tystysgrif AU (120 credyd)
HND	HNC (120 credyd)
Gradd Baglor (Anrhydedd)	Tystysgrif AU (120 credyd), Diploma AU (240 credyd) a Gradd Baglor (Gyffredin) (300 credyd)
Gradd Meistr (ac eithrio Gradd Meistr Ymchwil)	Tystysgrif Ôl-radd (60 credyd) a Diploma Ôl-radd (120 credyd)
Gradd Meistr Ymchwil	Tystysgrif i Raddedigion (60 credyd)

Dyfarniadau Aegrotat ac Ar Ôl Marwolaeth

Os caiff myfyrwr ei rwystro rhag cwblhau rhaglen, gall y Bwrdd Arholi argymhell i'r Cofrestrydd Academiaidd bod dyfarniad aegrotat neu ddyfarniad ar ôl marwolaeth yn cael ei wneud. Caiff dyfarniad ar ôl marwolaeth ei wneud os bydd myfyrwr yn marw cyn cwblhau rhaglen. Caiff dyfarniad aegrotat ei wneud os na all myfyrwr gwblhau rhaglen

oherwydd salwch a bod tystiolaeth na all y myfyriwr gwblhau ei astudiaethau yn y Brifysgol nac yn unman arall. Gall y Bwrdd Arholi argymhell dyfarniadau aegrotat neu ar ôl marwolaeth os ceir tystiolaeth y byddai'r myfyriwr wedi cwblhau'r dyfarniad pe bai amgylchiadau'n caniatáu. Gall tystiolaeth gynnwys credydau a gwblhawyd, gwaith arall a gwblhawyd, a thystiolaeth gan oruchwylwyr a / neu diwtoriaid ynghylch gwaith neu ymrwymiad myfyriwr. Os oes cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei ddyfarnu, er enghraifft, oherwydd achredu proffesiynol, gellir argymhell dyfarniad arall.

Terfynu a Gohirio Astudiaethau

Rhaid hysbysu'r Bwrdd am unrhyw fyfyrwr sydd wedi terfynu neu ohirio'u hastudiaethau a dylai'r myfyrwr hyn gael eu nodi ar y Rheolwr Dyfarniadau AU. Rhaid i staff a myfyrwr ddilyn y broses gywir a ddisgrifir yn y canllawiau ar Derfynu a Gohirio Astudiaethau sydd ar gael ar wefan GLIM o dan 'Polisiâu AU'.

Bydd myfyrwr sydd wedi Terfynu neu Ohirio eu hastudiaethau'n aros ar agenda cyfarfodydd Byrddau Dyfarnu Mewnol, fel eitem ar wahân. Dim ond y rhai sydd wedi cyflawni credydau fydd yn aros ar yr agenda ar gyfer Byrddau Dyfarnu Allanol.

11. Y Bwrdd Astudiaethau

Mae'r Bwrdd Astudiaethau'n gyfarfod allweddol yn y broses fonitro flynyddol ac yn fforwm rhagorol ar gyfer trafodaeth gyffredinol. Mae hefyd yn gyfle i fyfyrwyr ar y cynnydd a wnaed ac i rannu arferion da a phrofiadau. Bydd y Bwrdd Astudiaethau (BA) yn cael ei gynnal ym mis Medi/Hydref.

Mae'r cyfarfod yn drafodaeth wyneb yn wyneb rhwng aelodau tîm y cwrs i ystyried y drafft diweddaraf o'r Adolygiad Rhaglen Blynyddol sy'n cynnwys adroddiadau'r Arholwyr Mewnol ac Allanol, gan gynnwys argymhellion a'r Cynllun Gwella Ansawdd diwethaf i weld a yw'r holl gamau yn awr wedi cael eu gweithredu gan dîm y rhaglen. Bydd hefyd yn cymeradwyo Dogfen Ddilysu ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd i ddod yn ogystal â'r Llawlyfr Rhaglen a'r Tabl Asesu Blynyddol.

Bydd y Bwrdd Astudiaethau hefyd yn cadarnhau'r holl newidiadau a wnaed i'r rhaglen ers mis Mehefin a'r Ddogfen Ddilysu ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn academaidd (yn dilyn cyfarfod Adolygu Rhaglen Mehefin) gan yr Arweinydd Tîm.

Rhaid cadw cofnod ffurfiol o bob cyfarfod. Ar gyfer rhaglenni a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor, bydd y cofnodion yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol fel rhan o'r Adolygiad Blynyddol o Raglenni.

Aelodaeth y Bwrdd Astudiaethau

- Y Pennaeth Cynorthwyol/neu enwebai (sy'n gweithredu fel Cadeirydd)
- Arweinwyr Rhaglen yr holl raglenni a gyflwynir i'r Bwrdd
- Dau gynrychiolydd myfyrwr (lle y bo modd)
- Rheolwyr Maes Rhaglen yr holl raglenni a gyflwynir i'r Bwrdd

Aelodau Ymgynghorol Cyfetholedig

- Safonwr ac Arholwr(wyr) Allanol - Presenoldeb yn ddewisol
- Rheolwr Datblygu Addysg Uwch Grŵp Llandrillo Menai
- Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd Grŵp Llandrillo Menai
- Rheolwr Sicrhau Ansawdd Grŵp Llandrillo Menai
- Cofnodwr

Crynodeb o Brif Ddyletswyddau'r Bwrdd Astudiaethau

- Adolygu a chadarnhau fod holl gamau gweithredu'r Cynllun Gwella Ansawdd (neu ddogfen gyfatebol) flaenorol wedi cael eu cwblhau a bod unrhyw gamau gweithredu sydd yn y broses o gael eu cwblhau neu heb gael eu cwblhau yn cael eu trosglwyddo i'r Cynllun Gwella Ansawdd newydd.
- Derbyn ac ystyried yr Adolygiad Rhaglen Blynyddol (neu ddogfen gyfatebol). Bydd y Bwrdd yn: - Ystyried sylwadau adroddiadau'r Arholwr Allanol a'r Safonwr Allanol (bydd crynodeb o'r adroddiadau hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd gan ddefnyddio'r Adroddiad RAG) - Cynnig ymatebion priodol i'r holl argymhellion allanol a'u cynnwys yn y Cynllun Gwella Ansawdd (neu ddogfen gyfatebol)
 - ystyried newidiadau i staff, adnoddau addysgu ac adnoddau ffisegol cyrsiau
 - Adolygu canlyniadau arolygon Llais y Dysgwr
- Cymeradwyo newidiadau i raglenni
 - Derbyn cofnodion y Panel Adolygu Rhaglenni (a gynhelir ar ôl Bwrdd Arholi Allanol Mehefin) os ydynt yn berthnasol i'r rhaglenni a gyflwynir i'r Bwrdd
 - Cadarnhau'r Dogfen Ddilysu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.
 - Ystyried unrhyw newidiadau arfaethedig newydd yn dilyn argymhellion yr Arholwr Allanol a'r Safonwr Allanol ar gyfer y Panel sy'n trafod Newidiadau i Raglenni.
- Adolygu a chymeradwyo'r Rhaglen Asesu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf
- Adolygu a chymeradwyo unrhyw lawlyfrau cwrs (os ydynt yn berthnasol) ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf
- Cynnig unrhyw adborth priodol gan staff i'w ystyried gan y Grŵp Llywio a Sicrhau Ansawdd AU (HEQASG)

Acronymau AU a ddefnyddir gan GLIM

- **ABRh** = Adolygiad Blynyddol o Raglenni, dogfen GLIM ar gyfer y ddarpariaeth AU nad yw'n freiniol
- **AMB** = Adroddiad Monitro Blynyddol, mae iddo'r un swyddogaeth â'r ABRh, ond nid yw'n ddogfen GLIM ac fe'i defnyddir ar gyfer rhaglenni AU breiniol megis rhai Glyndŵr
- **BA** = Bwrdd Astudiaethau, a gynhelir fis Medi/Hydref i adolygu'r ABRh, yr AMB, yr asesiadau, y llawlyfrau cwrs a gwybodaeth arall
- **Dil. gan BB** = Rhaglenni a ddilyswyd gan Brifysgol Bangor, sef cyfran helaeth o ddarpariaeth AU GLIM
- **BDA** = Bwrdd Dyfarnu Allanol, y bwrdd arholi allanol sy'n cyfarfod fel arfer fis Mehefin ar ôl y bwrdd mewnol i ddyfarnu myfyrwyr yn ffurfiol neu i'w symud ymlaen neu drefnu eu bod yn gadael
- **EBS** = Education Business System, cronfa ddata i fewngofnodi graddau a chyfrifo canlyniadau dyfarniadau myfyrwyr
- **ALI** = Amgylchiadau Lliniarol
- **AA** = Arholwr Allanol
- **SA** = Safonwr Allanol
- **RhDAU** = Rheolwr Datblygu Addysg Uwch (Joanne Owen)
- **SAU** = Sefydliad Addysg Uwch, e.e. Prifysgol Bangor, Glyndŵr
- **GASAAU** = Grŵp Ansawdd a Safonau Academaidd AU, grŵp o reolwyr uwch ar gyfer AU
- **BDM** = Bwrdd Dyfarnu Mewnol, bwrdd arholi mewnol sy'n cyfarfod fel arfer fis Mehefin i adolygu proffiliau myfyrwyr cyn y bwrdd allanol
- **ARh** = Arweinydd Rhaglen
- **CSA** = Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd (Matt Neale)
- **RhSA** = Rheolwr Sicrhau ansawdd (Catherine Prosser)
- **CGA** = Cynllun Gwella Ansawdd, cynllun gweithredu ar gyfer y ABRh

- **Adroddiad Coch, Melyn Gwyrdd** = adroddiad blynyddol gan yr Adran Ansawdd sy'n cael ei greu ar sail adroddiadau'r AA/AM
- **RPCL** = Cydnabod Dysgu Achrededig Blaenorol (trosglwyddo credydau am ddysgu achrededig blaenorol)
- **RPEL** = Cydnabod Dysgu Drwy Brofiad Blaenorol (trosglwyddo credydau am ddysgu blaenorol na chafodd ei achredu, e.e. profiad gwaith, dyletswyddau/tasgau gwaith)

Acronymau na ddefnyddir bellach

- **AAAU** = Arweinydd Academaidd Addysg Uwch, CSA yn awr (Matt Neale)
- **HEMATS** = yr hen system ar gyfer cofnodi graddau asesu. Erbyn hyn mae EBS wedi ei disodli